# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 5**

COSBAU YCHWANEGOL O DAN DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

**76 Cosbau am fethiannau lluosog i dalu treth mewn pryd**

Ar ôl adran 122 o DCRhT (cosb am fethu â thalu treth mewn pryd) (a amnewidir gan baragraff 42 o Atodlen 23 i DTTT) mewnosoder—

"**122ZA Cosb am fethiannau lluosog i dalu treth gwarediadau tirlenwi mewn pryd**

(1) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran 122 mewn cysylltiad â methiant i dalu swm o dreth gwarediadau tirlenwi ar y dyddiad cosbi neu cyn hynny, mae cyfnod cosbi—

(a) yn dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad cosbi, a

(b) yn dod i ben 12 mis yn ddiweddarach, oni chaiff ei ymestyn o dan is-adran (2)(b).

(2) Os yw'r person, cyn diwedd y cyfnod cosbi, yn methu â thalu swm arall o dreth gwarediadau tirlenwi ("swm B") ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw neu cyn hynny—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 76. (See end of Document for details)*

(a) nid yw'r person yn agored i gosb o dan adran 122(1) mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw ond mae'n agored i gosb o dan yr adran hon yn lle hynny, a

(b) caiff y cyfnod cosbi ei ymestyn fel ei fod yn dod i ben 12 mis ar ôl y dyddiad cosbi ar gyfer swm B.

(3) Pennir swm y gosb y mae person yn agored iddo o dan yr adran hon drwy gyfeirio at—

(a) swm B, a

(b) sawl tro yn ystod y cyfnod cosbi y mae person wedi methu â thalu swm o dreth gwarediadau tirlenwi ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw neu cyn hynny.

(4) Os methiant cyntaf y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant, mae'r person yn agored i gosb o 2% o swm B mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(5) Os ail fethiant y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant, mae'r person yn agored i gosb o 3% o swm B mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(6) Os trydydd methiant neu ragor y person yn ystod y cyfnod cosbi yw'r methiant, mae'r person yn agored i gosb o 4% o swm B mewn cysylltiad â'r methiant hwnnw.

(7) Caniateir ymestyn cyfnod cosbi fwy nag unwaith o dan is-adran (2)(b)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 76 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 76 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 76.